Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Dyddiad: | 24 Ionawr 2022 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022** am **10.00 am TRWY GYNHADLEDD FIDEO**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021 (copi ynghlwm).

**5 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH - CYNLLUN GWEITHREDU** (Tudalennau 13 - 22)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ar y cynllun gweithredu drafft i gefnogi'r Datganiad Cyngor Amrywiol a wnaed gan y Cyngor Sir ar 7 Medi 2021 (copi ynghlwm).

**6 RÔL CEFNOGWR AMRYWIAETH** (Tudalennau 23 - 26)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ar y cynigion i greu rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth (copi ynghlwm).

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Rachel Flynn
Hugh Irving
Gwyneth Kensler
Christine Marston
Bob Murray
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Graham Timms
Joe Welch

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd trwy GYNHADLEDD FIDEO ddydd Gwener, 5 Tachwedd 2021 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Rachel Flynn, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Bob Murray (Cadeirydd), Rhys Thomas a Graham Timms

**Arsylwr**:
Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Pennaeth Busnes, Gwelliant a Moderneiddio (AS) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SJ a RTJ)

## PWYNTIAU I'W NODI

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a’r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i’r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai gan bob un o’r aelodau a oedd yn bresennol gysylltiad personol ag eitem rhif 8 ar y rhaglen – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022 / 2023, gan ei fod yn penderfynu ar gyflogau Cynghorwyr. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried fel cysylltiad sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad.
Datganodd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol gysylltiad personol ag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021.

Tudalen 8 – Eitem 7 ar y rhaglen – Canllawiau Diwygiedig Drafft ar y Cod Ymddygiad – roedd Aelodau'n teimlo fod y term 'croen mwy trwchus' yn amhriodol. Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, fod yr ymadrodd wedi ei ddefnyddio yn y canllawiau gan yr Ombwdsmon ac mewn Dyfarniad Uchel Lys ar y Cod Ymddygiad.

***Penderfynwyd: -*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.*

**5 CYNIGION I AELODAU FABWYSIADU FFYRDD NEWYDD O WEITHIO**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Cynigiodd ei ymddiheuriadau am y dryswch gyda'r atodiadau sy'n ymwneud â'r eitem ar yr agenda.

Roedd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gyfer yr eitem. Cadarnhaodd fod gweithgor wedi ei sefydlu i adolygu a thrafod ffyrdd newydd o weithio. Cadarnhawyd fod y gweithgor wedi cyfarfod ar 19 Hydref 2021 ac wedi cytuno ar yr argymhellion a gyflwynir i aelodau yn yr adroddiad.
Pwysleisiwyd fod y cynigion a osodir gan y gweithgor wedi eu cyflwyno i gynorthwyo'r trefniant cyfarfod hybrid a galluogi aelodau i gael mynediad i gyfarfodydd o bell os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Y cynnig oedd i ddarparu dau ddarn o dechnoleg i bob aelod, gliniadur a ffôn symudol gyda sgrin fawr. Roedd y gweithgor wedi penderfynu peidio rhoi IPad i aelodau.
Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol y byddai'r newidiadau i'r dechnoleg a ddefnyddir ar ôl yr etholiadau nesaf ac y byddai hyfforddiant TGCh yn cael ei ddarparu i'r holl aelodau.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i aelodau fod deddfwriaeth bresennol yn gorfodi awdurdodau lleol i gael darpariaeth i'w aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell. Roedd y rhan fwyaf o gyfarfodydd cyhoeddus bellach yn cael eu cynnal o bell gyda'r cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw drwy we-ddarllediad y cyngor.Roedd hyn yn caniatáu i'r cyhoedd a'r wasg arsylwi ar y cyfarfod. Atgoffwyd yr Aelodau y byddai strwythur y cyfarfod safonol yn dal i fod yn berthnasol, ac mae'n dal yn ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw ddatganiadau a dogfennau rhan 2 sy'n weddill yn gyfrinachol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r egwyddorion a'r protocolau cyffredinol a gynigiwyd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes, Gwelliant a Moderneiddio y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau ar y dechnoleg newydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael technoleg i alluogi mwy o fynediad i aelodau a hwylustod wrth fynychu cyfarfodydd yn rhithiol. Byddai staff TGCh ar gael i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i aelodau. Fe longyfarchodd aelodau ar y dysgu cyflym a wnaed ganddynt yn ystod y pandemig i alluogi cyfarfodydd i barhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y gefnogaeth roedd wedi ei dderbyn yn gosod ei ddyfeisiau i'w alluogi i weithio o gartref.

Diolchodd yr aelodau i'r Aelod Arweiniol a swyddogion am y wybodaeth a ddarparwyd, yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Anogodd y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau i ddefnyddio'r ddarpariaeth ar gyfer hawlio treuliau gan gynnwys y cyfleuster gofal plant. Os oedd gan aelodau dderbynebau ar gyfer treuliau yna gellid hawlio i gefnogi aelodau i fynychu cyfarfodydd.
- Byddai swyddogion a'r gweithgor yn edrych ar ddewisiadau i aelodau ar sail unigol a chynorthwyo gyda sefydlu'r dechnoleg sydd ei hangen ar aelodau i fynychu cyfarfodydd o leoliadau pell.
- Roedd angen lefel o ffurfioldeb a gweddustra o hyd ar gyfarfodydd o bell. Fe allai cyfleuster y cefndiroedd aneglur gael ei fabwysiadu gan aelodau i ychwanegu preifatrwydd. Cadarnhawyd y byddai gofod ar gael yn adeiladau'r cyngor er mwyn i aelodau ei ddefnyddio i fynychu cyfarfodydd. Ar hyn o bryd dim ond Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, Rhuthun oedd wedi ei osod yn dechnegol i gefnogi cyfarfodydd hybrid.
- Mae'n bosibl na fydd y defnydd o gyfarfodydd hybrid / o bell yn addas ar gyfer yr holl gyfarfodydd. Ar gyfer rhai cyfarfodydd nad ydynt yn cael eu gweinyddu gan y Gwasanaethau Democrataidd fel panel mabwysiadu mae'n bosibl na fyddai'n ymarferol i gynnal cyfarfod o bell.
- Roedd yr aelodau yn deall yr angen i recordio cyfarfodydd, gofynnwyd am wneud aelodau yn ymwybodol pan fyddai cyfarfodydd yn cael eu recordio.
- Fe allai'r ddyfais symudol newydd gael ei defnyddio fel man Wi-Fi yn ôl yr angen.
- Roedd y swyddogaeth pleidleisio ar Zoom ar gael i'w ddefnyddio os oedd angen. Nodwyd fod y swyddogaeth wedi ei defnyddio nifer o weithiau i gynnal pleidlais i lunio penderfyniadau. Fe all pleidleisio drwy alw cofrestr gymryd llawer o amser ond roedd yn ei gwneud yn eglur sut roedd aelodau yn dymuno bwrw eu pleidlais.
- Roedd Iechyd a Diogelwch aelodau a swyddogion yn destun pryder. Roedd aelodau a swyddogion wedi eu hannog i drafod unrhyw bryderon gydag eraill. Byddai cefnogaeth ac arweiniad yn cael ei ddarparu i bawb pe byddai unrhyw faterion yn codi. Y gobaith oedd y byddai'r dewis i weithio o bell yn rhoi mwy o hyblygrwydd i aelodau i ddewis o lle maent yn mynychu cyfarfodydd.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes, Gwelliant a Moderneiddio y byddai'n edrych ar hawliau trwyddedu PDF i alluogi aelodau i ychwanegu nodiadau i ddogfennau ar ddyfeisiau.
- Fe allai aelodau ychwanegu 'Cynghorydd' neu 'Cyng' i enw ar Zoom i ddangos yn eglur i unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n gwylio pwy ydynt.
- Awgrymodd aelodau fod y geiriad yn yr adran Protocol Hybrid 3.6 (atodiad 2) yn cael ei ddiwygio o 'sicrhau' i 'wneud pob ymdrech'.
- Byddai holl adeiladau'r cyngor gan gynnwys llyfrgelloedd yn cael eu hadolygu i weld a allent gael eu cynnig fel lle i gysylltu â chyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a'r Swyddogion am yr ymateb manwl i gwestiynau a phryderon yr aelodau ac roedd eisiau diolch i'r tîm TGCh am y

gefnogaeth a'r arweiniad a ddarparwyd i'r holl aelodau yn ystod y newidiadau o ganlyniad i'r newidiadau i weithio o bell. Roedd aelodau eisiau canmol y gwaith gan y gweithgor.

***PENDERFYNODD*** aelodau fod:

- *Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau ynghlwm;*
- *Cytunodd aelodau i'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad gyda'r diwygiad i'r protocol hybrid (3.6) yn dweud 'gwneud pob ymdrech' a*
- *Chynnwys adran i sicrhau fod aelodau yn ymwybodol o gyfarfodydd a gaiff eu recordio.*

**6 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH**

Arweiniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr aelodau drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Cafodd aelodau eu hatgoffa fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 7 Medi 2021 ar 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth'. Yn y cyfarfod hwnnw fe gymeradwyodd aelodau'r datganiad a nodwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad a dirprwywyd y broses o baratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd yr adroddiad yn sôn am waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fel rhan o'i Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Wedi'i gynnwys yng ngwaith CLlLC roedd Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth uchelgeisiol i geisio sicrhau bod siambrau cynghorau yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Amlygwyd yn yr adroddiad nifer o rwystrau a oedd wedi eu nodi'n flaenorol gan gynnwys;

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfodydd;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
- Beirniadaeth gan y cyhoedd a chamdriniaeth ar-lein;
- Tâl ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rôl amrywiol a chyfnod mewn swydd.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd gyda'r ffyrdd newydd o weithio a'r system hybrid o ran cyfarfodydd y gobaith oedd y byddai rhwystr ymrwymiad amser a theithio i gyfarfodydd yn cael ei leddfu ar gyfer ymgeiswyr posibl. Cadarnhawyd hefyd fod adroddiad penodol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn dilyn pob etholiad i drafod amseroedd cyfarfodydd ac unrhyw ofynion penodol.
Tynnodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Adnoddau Dynol sylw at y ffaith bod camau a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu yn gamau i wella'r ffyrdd y cynhaliwyd cyfarfodydd i sicrhau bod pobl a allai fod mewn cyflogaeth amser llawn, yn rhedeg eu busnes eu hunain, neu sydd ag anabledd neu gyfrifoldebau gofalu yn gallu cymryd rhan mewn democratiaeth leol. Pwysleisiwyd mai rôl bwysig Cynghorydd etholedig oedd i gefnogi'r ymrwymiad i ddod yn gyngor amrywiol. Roedd cynyddu ymgysylltiad gyda'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd a'r cyfraniad cadarnhaol mae cynghorwyr yn ei wneud i awdurdodau lleol yn hanfodol. Clywodd aelodau fod CLlLC wedi lansio

gwefan 'Byddwch yn Gynghorydd' a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â rôl cynghorydd ac yn cynnig cefnogaeth a chyfleoedd datblygu. Cadarnhawyd y byddai canllawiau hyfforddi ar gyfer y cyngor newydd yn cael eu darparu gan CLlLC.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod y disgrifiad a ddarparwyd yn yr adroddiad wedi ei ddarparu gan CLlLC gan gynnwys y geiriad a ddefnyddiwyd ar gyfer y meini prawf ar gyfer ymgeiswyr posibl. Hysbyswyd yr Aelodau bod agenda genedlaethol wedi dechrau mynd i'r afael â phryderon a materion yn ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Pwysleisiodd aelodau fod y gamdriniaeth a'r aflonyddu a dderbyniwyd dros y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn ofnadwy. Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bwysigrwydd cefnogi a chynorthwyo'r rhaglenni hyn.

Cadarnhawyd i aelodau ei bod wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Cynghorwyr, ond roedd disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei newid yn fuan. Atgoffwyd aelodau hefyd o'r protocol sydd mewn grym ar hyn o bryd os oedd ganddynt unrhyw bryderon neu os oeddent eisiau codi unrhyw faterion. Nododd unrhyw bryderon neu sylwadau yn ymwneud â hyfforddiant er mwyn ymdrin â hwy ac fe fyddai'n hapus i dderbyn adborth aelodau ar yr hyfforddiant a ddarperir.

Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i aelodau y dylid cyflwyno'r cynllun gweithredu i aelodau er mwyn cael sylwadau. Gofynnodd aelodau am i gyfarfod gael ei gynnal i dderbyn y cynllun gweithredu er mwyn cael trafodaeth ar y cynnig. Roedd yr holl aelodau yn gytûn.

Felly,
***PENDERFYNWYD** fod aelodau yn nodi'r adroddiad a bod adroddiad manwl pellach ar y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor.*

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod roedd rhaid i nifer o aelodau adael. Disgynnodd lefel presenoldeb y cyfarfod yn is na'r gofyniad ar gyfer cworwm. Penderfynwyd parhau gyda busnes y cyfarfod.

## 7 RÔL CEFNOGWR POBL IFANC

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bwysigrwydd rôl newydd arfaethedig y Cefnogwr Pobl Ifanc. Cafodd aelodau eu harwain drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a rhoddwyd gwybodaeth gefndir iddynt yn ymwneud â'r rôl.

Atgoffwyd aelodau y penderfynwyd, yn dilyn cyflwyno rhybudd o gynnig i'r Cyngor Sir ym Medi 2021, y byddai adroddiad ar y rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. Hysbyswyd aelodau fod yr Aelod Arweiniol yn cytuno y gellid cynnig y rôl i unrhyw aelod a oedd yn dymuno ymgymryd â'r swydd. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol,

Adnoddau Dynol a Democrataidd fod y disgrifiad drafft o'r rôl wedi ei greu yn unol â rolau Cefnogwyr presennol o fewn yr awdurdod.

Yn dilyn y drafodaeth, trafododd yr aelodau'r canlynol yn fanylach:

- Mae'r Cefnogwr Pobl Ifanc yn ymdrin â phob oed hyd at 25 nid 18 fel y nodwyd yn yr adroddiad drafft.
- Roedd yn hanfodol fod y Cefnogwr a ddewisir yn ymgysylltu gyda phobl ifanc ac ysgolion.
- Cytunodd aelodau fod angen y rôl ac y byddai'n darparu cyswllt cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc a'r awdurdod.
- Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd derbyn adborth gan y rhai a oedd yn cyflawni Rôl Cefnogwyr yn yr awdurdod i ddysgu a datblygu dealltwriaeth.
- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai'r rôl yn cynnwys rhestr benodol o rinweddau i'r ymgeisydd eu cyflawni ar gyfer y rôl. Byddai'r unigolyn a ddewisir yn gweithio'n agos gyda'r Aelod Arweiniol gan hyrwyddo pobl ifanc ar ran y cyngor.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wrth aelodau gan nad oedd y pwyllgor bellach â chworwm na allent gywiro'r argymhelliad ond fe allent gefnogi'r disgrifiad o'r rôl.

Felly,
***NODWYD,*** *fod aelodau yn dangos cefnogaeth eang tuag at y disgrifiad o'r Cefnogwr Pobl Ifanc ac yn dangos cefnogaeth eang i'r rôl ar gyfer unigolyn a benodir neu Gynghorydd.*

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR BANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022-2023**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) mewn perthynas ag adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cafodd aelodau eu hatgoffa fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ei sefydlu yn 2008. Cafodd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel eu hymestyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub Cymru a chynghorau tref a chymuned yn ogystal â chynghorau sir a bwrdeistref sirol. Roedd y Panel yn gallu pennu swm gwirioneddol y taliad y gall awdurdod ei wneud i aelod a'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a all wneud cynghorwyr yn gymwys i dderbyn taliadau.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod rhaid i'r awdurdod gydymffurfio gyda'r argymhellion a bod rhaid iddo dalu'r cyflog sylfaenol. Roedd pob aelod wedi eu hannog i dderbyn y cyflog yr oedd ganddynt hawl iddo. Cadarnhawyd y cynigiwyd i'r cyflog sylfaenol gynyddu i £16800 o £14368, sef cynnydd o 17%.

Cafodd aelodau eu harwain drwy'r adroddiad a oedd yn darlunio'r gwahanol gyflogau a gâi eu talu ar gyfer swyddi uwch.

Hysbyswyd aelodau mai i'r Cadeirydd yn unig y caiff y cyflog a delir i Gadeirydd pwyllgor ei roi, os yw'r Is-gadeirydd am unrhyw reswm yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd ar sail hirdymor roedd adran o'r adroddiad drafft yn darparu trefniadau i'r awdurdod eu dilyn.

Pwysleisiwyd i aelodau y byddai argymhellion yr adroddiad terfynol yn rhwymo ac y byddai'n rhaid i'r holl awdurdodau lleol lynu at yr adroddiad.

Felly,
***NODWYD** gan y pwyllgor benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022 – 2023 mewn perthynas â thalu cyflogau a thaliadau i aelodau cyfetholedig.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Gwasanaeth Democrataidd i'w hystyried.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 25 Mawrth 2022. Cytunodd aelodau y dylai cyfarfod ar wahân gael ei drefnu os yn bosibl cyn cyfarfod mis Mawrth i drafod y Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol unwaith yr oedd drafft manwl wedi ei lunio.

Cytunodd aelodau i gynnwys eitem yn rhaglen y cyfarfod nesaf ar CLlLC – y Broses Gyflwyno.

***NODODD** aelodau y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.00 p.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer** | Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Ionawr 2022 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Teitl** | Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Cynllun Gweithredu |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y mae'r adroddiad ynglŷn â chynllun gweithredu drafft i gefnogi'r Datganiad Cyngor Amrywiol a wnaed gan y Cyngor Sir ar 7 Medi 2021.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ar 7 Medi 2021, cymeradwyodd y Cyngor y datganiad a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn a dirprwyodd y dasg o baratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad i'r Pwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw canfod barn y Pwyllgor ar y cynllun gweithredu drafft a atodwyd i'r adroddiad hwn (Atodiad 2).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y cynllun gweithredu drafft a geir yn Atodiad 2, ac yn ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i ddiwygiadau a ystyrir yn angenrheidiol gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae gan CLlLC Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth uchelgeisiol i geisio sicrhau bod siambrau cynghorau yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Maent wedi bod yn ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o amrywiaeth ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

4.2. Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol CLlLC er mwyn edrych ar dangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth. Lluniodd adroddiad yn nodi rhwystrau i gyfranogiad a ellid eu crynhoi'n fras fel:

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfodydd;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Cyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
- Beirniadaeth gan y cyhoedd a chamdriniaeth ar-lein;
- Tâl ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rôl amrywiol a chyfnod mewn swydd

4.3. Cytunodd Cyngor CLlLC yn unfrydol bod angen ymdrech unedig a chyfun ledled teulu llywodraeth leol a'r pleidiau gwleidyddol.

4.4. Ar 7 Medi 2021 penderfynodd Cyngor Sir Ddinbych i ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol a chymeradwyodd y datganiad a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Dirprwyodd y Cyngor y dasg o baratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r ymrwymiad hwn i'r Pwyllgor Democrataidd.

4.5. Mae nifer o gynghorau eisoes wedi mabwysiadu cynlluniau gweithredu i gefnogi eu hymrwymiad i ddod yn gynghorau amrywiol. Nodweddion cyffredin o'r cynlluniau hyn yw camau i gynyddu ymgysylltiad gyda'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd a'r cyfraniad cadarnhaol y mae cynghorwyr yn ei wneud. Mae CLlLC wedi lansio gwefan 'Byddwch yn Gynghorydd' sy'n cynnwys gwybodaeth am rôl cynghorydd a'r gefnogaeth a'r cyfleoedd i ddatblygu sydd ar gael. Mae'r wefan ar gael yn https://www.byddwchyngynghorydd.cymru/. Gellir hyrwyddo hyn i sicrhau bod ymgeiswyr posibl yn cael eu hysbysu'n llawn am y rôl.

4.6. Nodweddion cyffredin eraill y cynlluniau gweithredu hyn yw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd iechyd a diogelwch cynghorwyr a'r camau i sicrhau bod aelodau yn derbyn yr hyfforddiant priodol a'r ymwybyddiaeth i'w cynorthwyo gyda'u lles, gan ei gwneud yn glir na fydd y cyngor yn goddef bwlio na bygwth cynghorwyr, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

4.7. Mae'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cynnwys camau i wella'r modd y caiff cyfarfodydd eu cynnal i sicrhau y gall pobl a allai fod mewn cyflogaeth llawn amser, sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain, neu sydd ag anabledd neu â chyfrifoldebau

gofalu, gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio yn y cyfarfod ar 7 Rhagfyr, a fydd yn gymorth i oresgyn rhai rhwystrau i gyfranogiad, o ran amser a dull cyfarfodydd.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Y mae’n annhebygol y bydd costau uniongyrchol yn deillio o’r gweithgareddau a nodir yn y cynllun drafft. Bydd y rhan fwyaf o’r adnoddau sydd eu hangen yn ystod amser swyddog. Lle bo costau, fe’u diwellir o adnoddau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes gofyniad am asesiad o’r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid yw’r adroddiad hwn wedi’i ystyried gan y Pwyllgor Craffu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd methu â mynd i’r afael â rhai o’r materion sy’n rhwystr i rai grwpiau mewn cymdeithas rhag cyfranogi yn y broses ddemocrataidd yn cymell rhai aelodau o’r cyhoedd i beidio â sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau, ac felly bydd hyn yn cyfyngu ar amrywiaeth yn y gynrychiolaeth.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

**In September 2021 Council supported the principles set out in the declaration below.**

**Diverse Council Declaration**

This Council commits to being a Diverse Council.

We agree to:

- Provide a clear public commitment to improving diversity in democracy
- Demonstrate an open and welcoming culture to all, promoting the highest standards of
- behaviour and conduct
- Set out a local Diverse Council Action Plan ahead of the 2022 local elections
- Demonstrate a commitment to a duty of care for Councillors
- Provide flexibility in council business by reviewing our practical arrangements for the holding of meetings
- Ensure that all members are aware of the allowances and salaries to which they are entitled, particularly any reimbursement for costs of care, so that all members receive fair remuneration for their work and that the role of member is not limited to those who can afford it.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL

DIVERSITY IN DEMOCRACY ACTION PLAN

| OBJECTIVE | POTENTIAL ACTIONS / PROPOSED WAY FORWARD | TIMESCALES |
|---|---|---|
| Increase understanding of different tiers of government in Wales, the role each plays in society and how they operate. | Dissemination of Welsh Government educational resources to accompany the extension of the franchise to 16 and 17 year olds in Wales<br><br>Promote Welsh Government's Guidance / materials for 16 and 17 year olds regarding Democracy in Wales. Explore Web-based platforms.<br><br>Overview of the Council website page 'Becoming a Councillor' to be reviewed and promoted.<br><br>Consultation Engagement and Equalities Team to explore other potential avenues through school forums / youth councils / career fairs. Continue to engage with schools (subject to pandemic), including links with school councils and youth councils | Resources have been developed by WG and have been disseminated to YEPs / schools.<br><br>March/April 2022<br><br>January/February 2022 |
| Increase engagement with the public to raise awareness of the role and activities of the Council and Councillors. Provide clarity about how the public can better inform local decision making. | Overview of the Council website page 'Becoming a Councillor' to be reviewed and promoted.<br><br>Work with Town and Community Council's to ensure links with 'Becoming a Councillor page' are promoted.<br><br>Promote the role of Councillor by holding 'Becoming a Councillor Roadshows prior to 2022 elections.<br><br>Publication of Council's Constitution. Constitution guide now a requirement under the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.<br><br>Develop Public Participation Strategy Scheme for compliance with duty under the 2021 Act. Encouraging people to participate in decision making and promoting awareness of how to become a | January/February 2022<br><br>January/February 2022<br><br>February 2022<br><br>Constitution currently on the website. Guide to be in place by May 2022.<br><br>Provision in force May 2022. |

| | | |
|---|---|---|
| | Member, what membership entails, promoting / facilitating processes<br><br>To continue the webcasting of meetings as specified under the 2021 Act.<br><br>Ask each political group to nominate Diversity Leads for each political group. | <br><br>All meetings are currently being webcast.<br><br>February/March 2022 |
| Comprehensive training and awareness programme available through a variety of routes available for members to support them in their role. | Members Induction Programme - work with the WLGA and share good practices with other councils to ensure a comprehensive induction programme for newly elected members.<br><br>Review areas of training and development which can be made available online, core set of training materials which can be used for all Members.<br><br>Ask political groups to provide the opportunity for mentoring /shadowing for newly Elected Members.<br><br>Provide opportunities for all members to be able to undertake Personal Development Reviews.<br><br>Promoting the WLGA's online "Councillor Guide" for the 2022 elections and the suite of National e-learning modules specifically developed for Members and freely available via the NHS learning@wales website. | May 2022<br><br>May 2022<br><br>May 2022<br><br>October 2022<br><br>Both prior to and after May 2022 |
| Improve the safety of councillors and their families when undertaking their council duties | Ensure that members undertake health and safety training to include lone working training to ensure their safety.<br><br>Publish official addresses on council website rather than personal addresses for Members (where requested). | July 2022<br><br>May 2022 |
| Maximise opportunities for individuals to work in ways that enable them to achieve a work / life balance which protects their welfare and wellbeing and allows them to manage any caring / dependency relationships. | Council has endorsed the New Ways of Working for member meetings to enable fully hybrid meetings which facilitate attendance from an alternative location.<br><br>Promote the remunerations that are available to Members on the Council | May 2022<br><br>Both prior to and after May 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | website and to potential candidates for election during roadshows, and to all newly elected members<br><br>Promote family absence provisions to potential candidates for election during roadshows and to all newly elected members.<br><br>Promote the allowance available to members for the costs of care and personal assistance to potential candidates during roadshows and to all newly elected members<br><br>Encourage all Members to claim any necessary allowances or expenses incurred.<br><br>Reviewing meeting times to have more flexibility to suit Members. | Both prior to and after May 2022<br><br>Both prior to and after May 2022<br><br>Both prior to and after May 2022<br><br>This is required by law to be done at least once per Council term. This will be conducted after the May 2022 election. |
| Assess the effectiveness of the provisions in 2011 Measure in relation to data collection, and in relation to other candidate data that could be collected in order for political parties to support diverse candidates at elections | Undertake a diversity and inclusion survey with Members which will provide a benchmark for future elections and allow the feedback to be reviewed to support / barriers that may have been experienced by a Member during their term of office. The survey feedback will help to deliver a positive and diverse environment for future Members to undertake their roles.<br><br>Share survey feedback with Members. | May 2022<br><br>. |
| Greater respect and support for those standing for and securing elected office. | Promote duty on political group leaders to promote high standards of conduct.<br><br>Standards Committee to monitor group leaders' compliance in relation to the duty and provide training.<br><br>Mandatory Code of Conduct training for all members following the elections | Duty comes into effect May 2022<br><br>Duty comes into effect May 2022<br><br>May 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | Promotion of a Denbighshire culture of mutual respect among members and between members and officers.<br><br>Review and development of informal procedures for dealing with complaints by members and officers of behaviour which breaches the culture of mutual respect | May 2022<br><br>May 2022 |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Ionawr 2022 |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Teitl** | Rôl Cefnogwr Amrywiaeth |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynnig i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I dderbyn barn ac argymhellion y Pwyllgor ynghylch creu rôl Cefnogwr Amrywiaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y diffiniad o rôl y Cefnogwr Amrywiaeth yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 7 Rhagfyr 2021.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Fis Tachwedd 2012 penderfynodd y Cyngor y dylid cael pedwar aelod sy'n gefnogwyr. Sef:

- Cefnogwr Pobl Hŷn
- Cefnogwr Atal Digartrefedd
- Cefnogwr Gofalwyr
- Cefnogwr Anableddau Dysgu

4.2. Fis Ebrill 2013 derbyniodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a oedd yn cael ei alw bryd hynny'n Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) na ddylid cael unrhyw aelod gefnogwr ychwanegol ac y dylai'r Aelod Arweiniol perthnasol ymgymryd ag unrhyw rôl 'gefnogi' arall a argymhellir yn genedlaethol neu'n lleol.

4.3. Ar 7 Rhagfyr 2021 cytunodd y Cyngor y dylid creu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc ac y gall unrhyw aelod o'r Cyngor ymgymryd â'r rôl honno.

4.4. Ar 7 Rhagfyr 2021 ystyriodd y Cyngor gynnig i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth. Penderfynodd y Cyngor y byddai adroddiad ar rôl y Cefnogwr Amrywiaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

4.5. Mae disgrifiad o'r rôl wedi'i ddrafftio ac ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r disgrifiad wedi'i ddrafftio i ddilyn yr un ffurf â'r disgrifiadau rôl a fabwysiadwyd ar gyfer y cefnogwyr eraill.

4.6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y disgrifiad rôl drafft hwn, a ddylai'r rôl gael ei llenwi gan yr Aelod Arweiniol perthnasol neu aelod heb fod ar y Cabinet, ac argymell i'r Cyngor a ddylid mabwysiadu'r disgrifiad rôl fel y'i drafftiwyd neu fel y bydd y Pwyllgor yn ei ddiwygio.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Fe allai costau teithio achlysurol godi os bydd aelod gefnogwr yn mynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a glustnodir ar gyfer teithio gan aelodau

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu. Mae'r mater wedi'i gyfeirio'n uniongyrchol i'r Pwyllgor gan y Cyngor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd unrhyw gost fach ychwanegol yn cael ei chynnwys yn y cyllidebau presennol a glustnodwyd ar gyfer teithio gan aelodau. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth ariannol ehangach.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd dryswch neu ddyblygu'n digwydd rhwng rôl yr Aelod Gefnogwr a rôl yr Aelod Arweiniol perthnasol os nad y Cefnogwr yw'r Aelod Arweiniol hefyd. Bydd yn bosibl lliniaru hyn drwy fod â disgrifiad rôl clir a pherthynas weithio dda rhwng yr Aelod Arweiniol a'r Cefnogwr.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol Gwasanaethau Democrataidd

| Cyfarfod | Eitem (Disgrifiad / Teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Awdur | Dyddiad Cyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 Mawrth 2022 | 1 | RhGD Gwasanaethau Democrataidd | I ystyried RhGD y Pwyllgor | Gwasanaethau Democrataidd | Eitem sefydlog |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 30 Medi 2022 | 1 | RhGD Gwasanaethau Democrataidd | I ystyried RhGD y Pwyllgor | Gwasanaethau Democrataidd | Eitem sefydlog |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol Gwasanaethau Democrataidd

**Materion y Dyfodol**

| Eitem (disgrifiad / teitl) | Pwrpas yr Adroddiad | Canlyniadau Disgwyliedig | Awdur | Dyddiad Cyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Prosiect Peilot Natur er Budd Iechyd | Archwilio'r prosiect peilot ac ystyried a ddylai prosiect tebyg fod yn rhan o'r rhaglen Blaenoriaethau Corfforaethol o brosiectau | Asesiad o fanteision y prosiect peilot ac unrhyw gyflawniadau mesuradwy a dderbyniwyd drwy Wasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth ac o fewn cyllidebau presennol i benderfynu pa un a ddylai prosiect tebyg gael ei gyflwyno ar draws y sir a'i gynnwys yn y rhaglen Blaenoriaeth Gorfforaethol o brosiectau i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol | Howard Sutcliffe | Erbyn GCIGC Gorffennaf 2019 (gohiriwyd gyda chaniatâd y Cadeirydd Hydref 2019, yn ddarostyngedig i waith pellach gael ei wneud ar y cynnig) |
| Y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn casgliad ymchwiliad a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i gamdrin hanesyddol yng Nghartrefi Gofal Plant Gogledd Cymru<br><br>*(o bosibl y Gwanwyn 2021?)* | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad ymchwiliad yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i gam-drin plant yng ngofal y cyn Gyngor Sir Clwyd, a phenderfynu a oes angen adolygu unrhyw weithdrefnau. | Penderfynu pa un a oes angen adolygu unrhyw un o bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor yn sgil canfyddiadau'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol | Nicola Stubbins | Tachwedd 2021 |

**Ar gyfer y dyfodol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 Nodyn: parheir i aros am wybodaeth ar y Ddeddf (oedi pellach yn sgil Covid-19 a phenderfyniad LlC mewn perthynas â Threfniadau Diogelu Rhyddid* | *Adolygu cynnwys y Ddeddf a rheoliadau statudol cysylltiol a chod ymarfer (disgwylir cyhoeddi yn Ebrill 2020).* | *Adolygu'r goblygiadau i'r Cyngor a phreswylwyr.* | *Phil Gilroy/David Soley* | *Rhagfyr 2019 (aildrefnwyd Ebrill 2020 yn sgil Covid-19)) -gwirio* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *gyda'r swyddog arweiniol yn yr hydref 2021 pa un a fydd ar gael* |
| | | | | |

**Adroddiadau Gwybodaeth/Ymgynghori**

| Gwybodaeth/Ymgynghori | Eitem (disgrifiad / teitl) | Pwrpas yr Adroddiad | Awdur | Dyddiad Cyflwynwyd |
|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad er gwybodaeth** (i'w ddosbarthu Gorffennaf 2021) | Monitro Darparwyr Gofal Allanol yn Chwarterol | Darparu manylion monitro rheolaidd darparwyr gwasanaeth gofal allanol a gomisiynwyd gan y cyngor ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan nodi unrhyw bryderon sy'n codi neu feysydd eraill sy'n achosi pryder. | Katie Newe/Ben Chandler | Gan GCIGC 2018 |
| **ADRODDIAD ER GWYBODAETH** (Mehefin 2021) | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Caffael Cydweithredol | Derbyn gwybodaeth ar weithgaredd y Gwasanaeth cydweithredol a pherfformiad yn erbyn targedau yn y Strategaeth Gaffael 2019/20 | Gary Williams/Sue Rees | Gan GCIGC Mawrth 2020 |
| **ADRODDIAD ER GWYBODAETH** (i'w ddosbarthu ym mis Medi (C1) a Chwefror (C3) bob blwyddyn) | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Darparu gwybodaeth ar berfformiad a chynnydd y Bwrdd i gyflawni ei flaenoriaethau a phrosiectau yn unol â'r amodau rhwng y Bwrdd a Llywodraethau Cymru a'r DU. | BUEGC | Gan GCIGC Mawrth 2021 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Medi 2021 a Chwefror 2022** | | | | |

Rhaglen Waith Craffu ar Bartneriaethau.doc
Diweddarwyd 17/9/2021 – KEJ

**Note for officers – Committee Report Deadlines**

| Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 20 May | **6 May** | 8 July | **24 June** | 16 September | **2 September** |

Partnerships Scrutiny Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag